



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Diolch i bawb** - ar ddiwedd blwyddyn addysgol arall hoffwn gydnabod ymdrech arbennig pawb sy'n rhan o gymuned yr ysol. Mae hi wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i'r arfer unwaith eto eleni wrth i ni ymateb i her Covid 19. Rwy'n edmygu gwaith caled yr holl staff a dycnwch a dyfalbarhad y disgyblion wrth iddynt ddysgu a chwarae o fewn eu swigod dosbarth. Diolch yn arbennig i chi rieni a gwarchodwyr am bob cydweithrediad ar hyd y daith ers mis Medi. Gobeithio y cewch gyfle i ymlacio a mwynhau gwyliau'r Haf eleni.

**Dosbarthu adroddiadau cofnod cynnydd** - mi fyddwn yn dosbarthu adroddiadau cofnod cynnydd ar ddydd Gwener, Gorffennaf 9fed. Sylwch gall fod anghysondebau rhwng canrannau presenoldeb brodyr a chwiorydd, a hynny oherwydd y gwahanol ddiwrnodau dychwelyd a gafwyd nôl ym mis Medi ar gyfer y gwahanol grwpiau blwyddyn. Os oes agweddau o'r adroddiadau sydd angen eglurhad pellach neu unrhyw faterion sydd angen eu trafod yna gofynnir yn garedig i chi e bostio eich athrawon dosbarth i drefnu galwad ffôn.

**Holiadur gwella'r ysgol** - rydym bob amser yn awyddus i glywed eich barn ac i dderbyn unrhyw syniadau sydd gennych ar gyfer gwella'r ysgol. Mi fyddwn yn dosbarthu holiadur gyda'r adroddiad cofnod cynnydd eleni. Mi fydd modd postio eich ymatebion yn y blwch postio coch fydd ger prif gât yr ysgol wythnos nesaf.

**Pontio dosbarthiadau** – mi fyddwn yn trefnu cyfle i'r disgyblion gwrdd ag athrawon / staff mis Medi yn ystod yr wythnos olaf – mae'n debygol taw sgwrs yn yr awyr agored fydd hon o fewn y swigod dosbarth pan fydd y tywydd yn caniatáu.

**Blwyddyn 6** – mi fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol uwchradd yn ystod y bythefnos nesaf – cofiwch fod angen cwblhau'r prawf LFT ar y noson cyn yr ymweliad.

**Gweithgareddau Lles** – yn ystod yr wythnos olaf mi fyddwn yn trefnu nifer o weithgareddau hwyliog i hybu lles y disgyblion. Cofiwch eich bod yn dod i'r ysgol mewn gwisg ar gyfer gweithgareddau chwaraeon.

**Gwersi offerynnol gan Athrawon Cerdd Peripatetig** – os ydych yn dymuno i'ch plentyn dderbyn gwersi cerdd gan yr Athrawon Peripatetig sy'n ymweld â'r ysgol yna dilynwch y cyfarwyddiadau sydd wedi eu rhannu drwy lythyr Geraint Evans, Rheolwr y Gwasanaeth Cerdd [Geraint.Evans@ceredigion.gov.uk](mailto:Geraint.Evans@ceredigion.gov.uk)

**Gwyliau'r Haf** - mi fydd yr ysgol yn cau am 3:30yp ar ddydd Gwener, Gorffennaf 16eg ac yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Gwener, Medi'r 3ydd.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

R C Williams

Pennaeth 06/07/2021



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Thank you all** - at the end of another educational year I would like to acknowledge the special effort of all involved in the school community. It's been a very different year once again this year as we respond to the challenge of Covid 19. I admire the hard work of all staff and the persistence and perseverance of the pupils as they learn and play within their classroom bubbles. Special thanks to you parents and guardians for all your co-operation since September. We hope you have the opportunity to relax and enjoy the Summer holidays.

**Distribution of progress reports** - we will issue progress reports on Friday, July 9th. Please note that you may find discrepancies between the attendance percentages of brothers and sisters due to the staggered return days for different year groups back in September. If there are aspects of the reports that require further clarification or any issues that need to be discussed then please kindly email your class teachers to arrange a phone call.

**School improvement questionnaire** - we are always keen to hear your views and receive any ideas you have for school improvement. We will be issuing a questionnaire with the progress report this year. Your responses should be posted in the red mailbox next to the main school gate next week.

**Class Transition** - we will arrange an opportunity for pupils to meet their teachers / staff for September during the final week - this is likely to be an outdoor conversation within the classroom bubbles when the weather permits.

**Year 6** - Year 6 pupils will be visiting the secondary school in the next two weeks - remember the LFT test needs to be completed the night before the visit.

**Wellbeing Activities** - during the last week we will be organizing a number of fun activities to promote pupils' wellbeing. Pupils are reminded to wear clothing and footwear suitable for sporting activities.

**Instrumental lessons with Peripatetic Music Teachers** - if you wish your child to receive music lessons from the Peripatetic Teachers who visit the school then follow the instructions shared by Geraint Evans, Manager of the Music Service [Geraint.Evans@ceredigion.gov.uk](mailto:Geraint.Evans@ceredigion.gov.uk)

**Summer Holidays** - the school will close at 3:30 pm on Friday, July 16<sup>th</sup> and will re-open to the pupils on Friday, September 3<sup>rd</sup>.

**If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately.**

**R C Williams**

**Headteacher**

**06/07/2021**